OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 1513 (Cy. 177)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i Gyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

Gwnaed	*16 Mehefin 2011*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe - Manceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i Gyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *(" the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r A539 wrth Gyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i ganolbwynt Cyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam;

ystyr "cyfnod y cyfyngiad" *("restricted period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol.